Dagrau'r Fam Ddaear

Gwynfor Dafydd

Un ddiwyd fu'r Fam Ddaear – ddydd a nos

rhoddai i ni fyd llachar:

Nyth a heulwen a thalar

a ffyrdd gwyrdd y bywyd gwâr.

Ond wedi i wên ein heulwen ni – ein twyllo

daw t'wyllwch i'n sobri:

Dyn mor wirion fu'n tonni

yr iâ'n llawn o ddagrau'n lli.

Ti'n siarad â fi?

Siriol Jenkins

"Bydd ddim gwahaniaeth,

Does dim rhaid i fi,

Mi wnai e'r tro nesa',"

Yw geiriau'r holl fyd.

Y diwrnod nesa'

Yr un yw y sgôr,

“Un llais ydw ‘inne,

Un alto mewn côr!”

Ond beth fydd yn digwydd

Pan fydd pob bas,

Soprano a thenor

Yna’n gollwng mas?

Beth fydd yn dod

O’r arweinydd brwdfrydig,

Â’r syniad gwefreiddiol

Wedi suddo ychydig?

Hen gôr pwerus

Sy’n gwrthod newid

Rhwygo’r harmoni’n ddarnau -

Torri’u haddewid!

Troi llygad ddall

I beth maen nhw’n wneud

Tan ei fod yn rhy hwyr!

Mae’n mynd heb ei ddweud,

Fod car ddim yn gweithio

Heb betrol, heb fatri,

Does dim ffordd i wneud

Byd newydd mewn ffatri.

Newidiadau

Gethin Roberts

Edrych trwy'r ffenest dim byd o'i le,

planhigion a blodau a cwningod dros y lle

yr adar yn canu gyda mam a fi

dyma ein byd mawr perffaith ni.

Edrych trwy'r ffenest un peth o'i le,

dim planhigion na blodau na chwningod dros y lle

tybed beth sy'n digwydd i'n byd mawr ni?

Edrych trwy'r ffenest pob peth o'i le,

tân a m?g a pobl dros y lle

dim byd ar ôl

beth sydd wedi digwydd i'n byd mawr ni?